



Adroddiad Arolygu

Sarah Rees

Rhydaman



Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

05/07/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Math o ofal a ddarperir	Gwarchodwr plant
Lleoedd cofrestredig	6
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg a Saesneg
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	7 Rhagfyr 2016
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

<u>Llesiant</u>	Da
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Da
<u>Yr Amgylchedd</u>	Da
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Da

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae gan y plant lais cryf ac maent yn rhyngweithio'n dda. Mae'r plant yn mwynhau eu hunain ac maent yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir. Maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw'r plant yn ddiogel. Mae gan y gwarchodwr plant gyberthnasau cadarnhaol ac agos â'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau ac adnoddau diddorol a dymunol i ddiddanu'r plant a'u cadw'n hapus.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae digon o le yn yr eiddo ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda dan do ac yn yr awyr agored, gydag adnoddau o ansawdd da i ddatblygu annibyniaeth a dysgu trwy chwarae. Mae'r ardal awyr agored yn darparu cyfleoedd eang a da i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac yn rhedeg y lleoliad gwarchod plant yn dda. Mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn bodloni safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn dod at y gwarchodwr plant i gael maldod ac mae ganddynt gydberthynas agos, cariadus â hi. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn yng nghartref y gwarchodwr plant ac yn teimlo'n gyfforddus gyda'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd gwirfoddol. Mae'r plant yn mynd at y gwarchodwr plant am gymorth a byddant yn derbyn cymorth buan. Er enghraifft, pan oedd y plant yn didoli pom-poms lliw, gwnaethant ofyn am fwy, roedd hyn yn cael ei barchu a chawsant fwy.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn dweud yn hyderus wrth y gwarchodwr plant pa liw paent y maent ei eisiau. Mae'r plant yn dewis chwarae gyda'r ceir tegan a'r tywod yn yr awyr agored. Mae'r plant yn teimlo bod y gwarchodwr yn gwrando ar eu dewisiadau. Yn ystod y prynhawn, aeth y plant ati i ddewis llyfr i'r gwarchodwr plant ei ddarllen iddynt ac roedd y gwarchodwr plant yn hapus iawn i wneud hynny.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn rhwydd a chyda gofal. Yn naturiol, mae'r plant yn rhannu adnoddau megis llyfrau, offer chwarae tywod ac adnoddau paentio. Maent yn datblygu hyder a hunan-barch da wrth iddynt gael eu canmol am eu cyflawniadau megis tacluso teganau a bwyta'n dda. Mae'r plant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, pan oedd y plant yn cael eu hatgoffa i arafu a bod yn ofalus wrth wthio'r teganau gwthio cerddorol, gwnaethant ymateb yn briodol. Mae'r plant yn dangos gofal a sensitifwrydd tuag at ei gilydd trwy roi eu breichiau o amgylch ei gilydd, rhannu a bod yn garedig.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir. Roeddent yn mwynhau cymysgu paent a chwythu'r paent i wneud sblatiau a gwneud marciau gyda'r gwellt ar y papur. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Roeddent yn gwrando'n astud ar y stori am deimladau ac roeddent wrth eu bodd yn didoli'r pom-poms yn lliwiau gwahanol. Gwnaethant chwerthin yn llawn cyffro wrth daflu'r pom-poms i'r awyr. Roedd y plant wrth eu bodd yn taflu pêl, a'i derbyn, ac yn chwerthin pan redodd y bêl i ffwrdd.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth trwy ddysgu defnyddio fforc i fwyta eu pasta amser cinio. Maent yn dangos annibyniaeth trwy ddefnyddio'r toiled ac ymolchi eu dwylo. Maent yn gwybod eu trefn yn dda ac maent yn gwybod pryd mae angen iddynt ymolchi eu dwylo. Mae'r plant yn datblygu sgiliau echddygol manwl da wrth iddynt edafu careiau a defnyddio brwshys paent trwy waith celf trwy baentio eu dwylo, paentio lluniau a gwneud marciau.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel. Mae ei dealltwriaeth o amddiffyn a diogelu plant yn dda. Mae hi'n ymateb yn dda pan ofynnir iddi am senarios amddiffyn plant posibl. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod heintiau yn cael eu trosglwyddo cyn lleied â phosibl, trwy sicrhau ei bod yn ymolchi ei dwylo cyn paratoi bwyd ac annog y plant i ymolchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl chwarae yn yr awyr agored. Mae hi'n diheintio arwynebau cyn ac ar ôl i'r plant fwyta eu bwydydd ac yn sicrhau bod dwylo'r plant yn cael eu hymolchi cyn bwyta. Mae gan y gwarchodwr plant bolisi newid clytiau addas sydd wedi'i ddiweddarau yn ystod yr arolygiad. Mae hi'n ymolchi ei dwylo'n drylwyr ar ôl newid cewyn ac yn diheintio'r mat newid ar ôl pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu bwyd maethlon cytbwys da i'r plant. Mae hi'n annog y plant i yfed dŵr drwy'r amser. Mae gan y gwarchodwr plant a'r gwirfoddolwr gwarchod plant dystysgrifau cymorth cyntaf pediatriig cyfredol. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif hyfforddiant hylendid bwyd a diogelu cyfredol. Mae damweiniau a digwyddiadau, yn ogystal â chofnodion meddyginiaeth, yn cael eu cofnodi gyda dyddiadau, gwybodaeth a llofnodion. Fodd bynnag, nid yw anafiadau sydd eisoes wedi digwydd cyn i'r plant gyrraedd y lleoliad gwarchod plant yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Mae'r gwarchodwr plant wedi gweithredu polisi yn ystod yr arolygiad i fynd i'r afael â hyn ac felly bydd y cofnodion hyn yn cael eu harchwilio yn ystod arolygiad nesaf y lleoliad.

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol, meithringar ac agos â'r plant. Pan ddaw plant ati i gael maldod, mae hi'n ymateb yn gadarnhaol gan roi maldod i'r plant pan fo angen bydd yn sicrhau eu bod yn cael gofal da. Mae'r gwarchodwr plant yn dathlu cyflawniadau'r plant trwy guro dwylo a bloeddio. Mae hi'n ymddwyn fel model rôl dda ac mae hi'n annog y plant i fod yn gwrtais bob amser.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau ac adnoddau diddorol a dymunol i gadw'r plant yn brysur, a sicrhau eu bod wedi'u hymgysylltu ac yn hapus. Mae'n ymgysylltu â'u hanghenion chwarae a dysgu trwy drafod lliwiau a siapiau yn ddwyieithog. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau dyddiol i ddatblygu ystod o sgiliau. Mae'n hyrwyddo datblygiad y Gymraeg yn dda iawn trwy ddarllen straeon i'r plant a thrafod eu teimladau a gofyn cwestiynau fel eu bod yn deall y cynnwys. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi cynnydd y plant trwy gadw dyddiadur o weithgareddau, cynnydd datblygiadol, targedau a chyflawniadau gan ddefnyddio meddalwedd ar-lein. Mae hi'n darparu cyfleoedd da i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o ddiwyllianau ac amrywiaeth trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Dydd San Padrig a Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae hi'n cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn diweddarau'r gwiriadau gwaith cynnal a chadw yn rheolaidd. Mae asesiadau risg dyddiol yn cael eu cwblhau a'u llofnodi, ac mae asesiadau risg ar gyfer gwibdeithiau a theithiau car wedi'u diweddarau yn ystod yr arolygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu arferion glanhau a hylendid, gan gynnwys glanhau a gwirio adnoddau a theganau'n rheolaidd.

Mae digon o le yn yr eiddo ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda dan do ac yn yr awyr agored, gydag adnoddau o ansawdd da i ddatblygu annibyniaeth a dysgu trwy chwarae. Mae'r amgylchedd dan do yn gynnes ac yn groesawgar gyda man eang i'r plant chwarae a symud o gwmpas yn rhydd. Mae adnoddau chwarae ar lefel isel ac yn hygyrch i oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant. Mae'r plant yn cael mynediad at y mannau chwarae a dysgu ar y llawr daear ac yn yr ystafell wydr. Mae'r rhain yn gyfforddus gydag ystod o bosau, teganau a threfniadau addas i'r plant ymlacio a chysgu. Mae ystafell ymolchi hygyrch i lawr y grisiau, gyda photi, gris hyfforddi, sebon hylif a thyweli papur ar gael.

Mae digon o le yn yr ardal awyr agored ac mae'n rhoi cyfleoedd da i'r plant. Mae ardaloedd i'r plant chwarae dan do yn yr awyr agored, lle mae llithren, peli a rhwyd pêl-rwyd, tŷ chwarae bach, treisiclau, sgwteri, tywod, dŵr a chyfleoedd chwarae blêr. Mae'r adnoddau chwarae dan do yn helaeth ac yn hybu creadigrwydd, dychymyg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn monitro'r rhain yn dda yn rheolaidd gan wirio offer chwarae sydd wedi torri neu sydd wedi treulio, a'u hadnewyddu.

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac yn rhedeg y lleoliad gwarchod plant yn dda. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'n glir sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac mae'n rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar rieni. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion wedi'u diweddarau gan gynnwys cytundebau plant, caniatadau ac anghenion unigol. Mae ganddi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ac mae'r dogfennau car yn gyfredol ac yn ddilys. Bodlonir cymarebau oedolion i blant bob amser ac mae hi'n cofnodi dyddiadau ac amseroedd y mae'r plant yn derbyn gofal gan y rhai sy'n gweithio yn y lleoliad. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hi wedi diweddarau a darparu copïau wedi'u diweddarau o'r polisi amddiffyn a diogelu plant a pholisïau eraill i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau adolygiad blynyddol o'r lleoliad. Mae hi'n adolygu ei harferion a'i hyfforddiant presennol, gan geisio barn y rhieni a'r plant trwy holiaduron ac yn creu nodau ar gyfer y gwaith o redeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae gwiriadau recriwtio wedi'u cwblhau ar gyfer y cynorthwydd gwirfoddol gwarchod plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan bob aelod o'r cartref a'r cynorthwydd gwarchod plant yr holl dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r cynorthwydd gwarchod plant yn wirfoddolwr sy'n cynorthwyo'r gwarchodwr plant pan fo angen. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda ag AGC trwy hysbysiadau ar-lein ac mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol wedi'i gwblhau.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gofal yn rhagorol. "Mae fy mhientyn wrth ei fodd yn mynychu yma ac rydw i bob amser yn hapus tu hwnt gyda'r gweithgareddau y mae'n cael ei annog i fod yn rhan ohonynt." Dywedodd rhiant arall na all ganmol y lleoliad ddigon ac ychwanegodd ei bod yn teimlo bod popeth y mae'r gwarchodwr plant a'i gwirfoddolwr yn ei wneud bob amser yn ddiffuant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu anghenion dyddiol y plant gyda'r rhieni ynghyd â'u cynnydd a thargedau datblygiadol, sydd ar gael yn hawdd iddynt trwy feddalwedd ar-lein.

Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael eu cofnodi a'u llofnodi gan rieni wrth iddynt gyrraedd y lleoliad gwarchod plant.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Sgoriau	Ystyr y sgoriau
Rhagorol	Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant.
Da	Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar ofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu lles mewn modd gweithredol.
Digonol	Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo lles ac i wella canlyniadau i blant.
Gwael	Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Dyddiad cyhoeddi Insert_Report_Published_Actual_Do_Not_Delete'